



### CYLCHLYTHYR 2: HYDREF 2013

Mae rhaglen LIFE Natura 2000 yn cynhyrchu cynllun strategol er mwyn rheoli ac adfer yr holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru, ar dir a môr, am y cyfnod 2014 hyd at 2020 a'r tu hwnt. Caiff y prosiect ei redeg gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n cael nawdd ariannol gan gronfa LIFE+ yr UE.



#### Ffocws ar nodweddion

*Cyfle i ddysgu am y cynefinoedd a'r rhywogaethau gwarchoddedig yn rhwydwaith Natura 2000 Cymru.*



Enw cyffredin: Dolffin Trwyn Potel  
Enw gwyddonol: *Tursiops Truncatus*

Hyd oes: hyd at 40 mlynedd  
Hyd: 2-4m  
Pwysau: 150-650kg  
Lleoliad: Bae Ceredigion (Cymru) a Moryay Firth (yr Alban)

#### Ffeithiau Allweddol:

- Mae ymchwil newydd wedi dangos bod gan ddolffiniaid trwyn potel chwibanau gwahanol i'w gilydd er mwyn galw' i gilydd yn ôl eu "henw".
- Maen nhw'n byw mewn heidiau o 10 i 30 anifail, ond mae grwpiau o fwy na 1000 wedi cael eu cofnodi.
- Gallant gyrraedd cyflymder o 22mya dros bellteroedd byr.
- Problemau cyffredin i'r dolffiniaid hyn yw aflonyddu arnynt, llygredd dŵr ac a oes ysglyfaeth ar gael.

#### Materion a risgiau i safleoedd Natur a nodweddion yng Nghymru a'r dulliau rheoli a ddefnyddir i ymdrin â hwy

Mynychodd 79 o gynrychiolwyr o gyrff sydd â diddordeb yn Natura 2000 gyfres o weithdai ym mis Mehefin mewn pedwar lleoliad yng Nghymru. I ddechrau bu'r cynrychiolwyr yn ystyried pa faterion (pwysau) a risgiau (bygythiadau) oedd yn fwyaf amlwg i'r gwahanol ecosystemau; yna buont yn trafod pa mor amrywiol ac addas oedd y dulliau rheoli a ddefnyddir ar hyn o bryd i'w datrys. Coladwyd yr wybodaeth o'r gweithdy ochr yn ochr â dadansoddiad ansoddol o ffynonellau data eraill.

Mae'r gwaith hwn wedi'n galluogi i ganfod y prif broblemau sy'n effeithio ar AGA ac ACA yng Nghymru, yn ogystal â'r dulliau mwyaf cyffredin o ddelio â nhw, a chyfyngiadau'r rhain. Bydd y canlyniadau ar gael mewn dau adroddiad technegol a gyhoeddir ar ein tudalennau gwe yn fuan.

#### Bylchau Tystiolaeth

Yn dilyn mewnbwn gwerthfawr gan randdeiliaid, mae'r prosiect wedi casglu dros 170 o awgrymiadau am fylchau yn y sylfaen tystiolaeth sy'n rhwystro cynnydd ar hyn o bryd. Mae rhaglen LIFE Natura 2000 wrthi'n gosod nifer o gytundebau i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau tystiolaeth uchaf eu blaenoriaeth – a disgwylir y canlyniadau dros y 12 mis nesaf.

Bydd yr awgrymiadau nas ariannwyd y tro hwn yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwellau â Blaenoriaeth (PIPs) a chânt eu hanfon i Brosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gyda'r nod o gael eu hariannu yn y dyfodol.

<http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/WBP-Evidence-Gaps-Project>

#### Tudalennau Gwe Newydd

Cafodd tudalennau gwe Rhaglen LIFE Natura 2000 eu hail-lansio ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallwch weld y nweyddion diweddaraf am gynydd, cael gwybod am ddiwyddiadau a lawrlwytho dogfennau a chyhoeddiadau.

<http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/our-work/about-us/nrw-funded-projects/life-natura-2000-programme-wales>

## Canfod dulliau newydd o ariannu a rheoli – gweithdai mis Medi


Cynhaliodd Rhaglen LIFE N2K gyfres o weithdai i archwilio dulliau newydd o reoli ac ariannu a allai fod â'r potensial i ddatrys problemau ar Natura 2000 a chyflawni gweithredoedd hanfodol mewn ffordd arloesol.

Ar 12 Medi cyfarfu arbenigwyr morol yn Aberystwyth, ac ar 17 Medi arweiniodd y Rhaglen seminar yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ym Mangor.

Yn olaf Rhaglen LIFE N2K oedd yng ngofal ail ddiwrnod y gynhadledd "Llefydd Arbennig Ewrop" ar 26 a 27 Medi yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Yn dilyn cyflwyniad gan Matt Rayment o ICF GHK Consultancy, awgrymodd 55 o gynrychiolwyr ystod eang o ddulliau gweithredu newydd o bob cwr o Ewrop a'r byd a thrafod y manteision a'r rhwystrau mewn dwy sesiwn weithdy fywiog.

Bu diwrnod cyntaf y gynhadledd, a oedd yng ngofal Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol yr UE, yn edrych ar gryfhau'r nifer sy'n cymryd cyllid yr UE ar gyfer Natura 2000. Roedd y cyflwyniadau'n sôn am brosiectau LIFE llwyddiannus, y rheoliad LIFE newydd, Fframweithiau Gweithredu â Blaenoriaeth a'r potensial i dynnu ar y 'megagronfeydd' Ewropeaidd.

Bydd sleidiau o'r cyflwyniadau a chasgliadau o ganfyddiadau'r gweithdai yn cael eu hanfon drwy ebost i'r cynrychiolwyr a byddant ar gael ar wefan y Rhaglen yn y dyfodol agos. Cynhyrchir adroddiad llawn ar y dulliau ariannu a rheoli newydd yn ddiweddarach eleni.



*Pâl ar Ynys Sgomer*

## Datblygu Cronfa Ddata Camau Gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 yn datblygu'r Gronfa Ddata Camau Gweithredu fel y gall ddal a rheoli Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth ar gyfer pob safle Natura 2000. Bydd hyn yn adeiladu ar y data gwerthfawr sydd eisoes yn y gronfa ddata ac yn ehangu'i rôl fel arf rheoli a chyfathrebu.

Mae cam cyntaf y datblygiad, i sefydlu cyswllt uniongyrchol rhwng nodweddion a'r materion/camau gweithredu cysylltiol, wedi cael ei gwblhau bellach. Bydd yr ail gam yn cynnwys tair elfen bellach: -

- Galluogi materion i gael eu cofnodi yn erbyn Safle yn hytrach na dim ond Uned.
- Galluogi Risgiau i'r dyfodol i gael eu cofnodi yn ychwanegol at Faterion.
- Ychwanegu meysydd data newydd i ddal data am gostio ac ariannu a chaniatáu llunio gwell adroddiadau.

Bydd y trydydd cam yn canolbwyntio ar ehangu swyddogaeth darparu adroddiadau a chynnal ymholiadau y gronfa ddata.

## Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth

Caiff Cynllun Gwella â Blaenoriaeth (PIP) ei greu ar gyfer pob safle Natura yng Nghymru. Bydd yn amlygu materion â blaenoriaeth a'r camau gweithredu sy'n ofynnol ym mhob achos, ac yn rhestru'r costau fesul eitem a'r ffynonellau ariannu. Bydd y tîm yn gweithio gyda swyddogion safle Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid allanol o fis Hydref gyda'r nod o gwblhau'r cynlluniau erbyn mis Medi 2014.  
(DS. PIPs yw'r enw newydd ar Gynlluniau Gweithredu Safle)

I gysylltu â'r Rhaglen LIFE Natura 2000, am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau yn y cylchlythyr, neu i ymuno â'n rhestr bostio, anfonwch ebost at [hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Neu ewch i'n gwefan <http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/our-work/about-us/nrw-funded-projects/life-natura-2000-programme-wales>

